

**Atodiad 1B – Nodiadau Cyfarfod gyda'r Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff –  
Ysgol Gymunedol Aberdâr**

<b>Dyddiad:</b>	11 Rhagfyr 2024
<b>Amser</b>	15:45
<b>Lleoliad</b>	Ysgol Gymunedol Aberdâr

<b>Yn bresennol</b>		
<b>Enw</b>	<b>Llythrennau cyntaf yr enw</b>	<b>Teitl</b>
Sarah Corcoran	SC	Pennaeth Cyflawniad Ysgolion Uwchradd a Lles
Catrin Edwards	CE	Pennaeth Materion Trawsnewid, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu
Bethan Davies	BD	Rheolwr Adnoddau Dynol
Catherine Williams	CW	Swyddog Prosiect Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Garrif

### **1. Croeso a Chyflwyniadau**

Estynnodd SC groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb ei gyflwyno i'w gilydd.

### **2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

Rhoddodd SC drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

### **3. Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gymunedol Aberdâr i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

<b>Rhif</b>	<b>Cwestiwn/Sylw</b>	<b>Ymateb</b>
1	Sut bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu rhannu gyda ni?	Bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r Adroddiad Ymgynghori.
2	Er ein bod ni'n parchu bod yn rhaid dilyn y broses briodol, rydyn ni'n pryderu os na wneir y penderfyniad tan fis Ebrill 2025, na fydd digon o amser i roi proses bontio a sefydlu effeithiol ar waith, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae mis Ebrill i fis Mehefin yn amser arbennig o brysur i ddisgyblion blwyddyn 11 gyda gweithgareddau adolygu ac arholiadau TGAU yn cael eu cynnal.	Bydd Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon (sy'n cynnwys Ysgol Gymunedol Aberdâr, Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru) yn parhau p'un a fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen ai peidio, felly dylai gweithgareddau pontio fod yn digwydd eisoes i alluogi disgyblion i ddod yn gyfarwydd â'r tri lleoliad ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn teithio i o leiaf un o'r safleoedd ysgol

		<p>eraill i gwblhau eu hastudiaethau, felly mae'n bwysig bod hyn yn digwydd beth bynnag fo canlyniad y cynnig.</p> <p>Mae pontio yn digwydd ar gyfer <u>holl</u> ddisgyblion blwyddyn 11 ym mhob ysgol, felly dylai fod gan bob ysgol gynllun pontio i hwyluso hyn.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, gallai fod cyfle i gynnwys rhai gweithgareddau sefydlu ychwanegol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Medi 2025 ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gyfun Aberpennar.</p>
3	Oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) unrhyw syniadau ynghylch sut y gallai pontio weithio, neu a fyddai'r ysgol yn gyfrifol am drefnu hyn?	Gan nad yw penderfyniad wedi'i wneud eto, does dim byd yn ei le ar hyn o bryd. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai CBSRhCT yn hapus i drafod hyn gyda'r ysgol.
4	Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yn bwysig sicrhau bod trefniadau pontio gwell yn cael eu rhoi ar waith o ran gofal bugeiliol a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Gallai fod yn fuddiol ymgysylltu â disgyblion yn awr, o dan drefniadau presennol Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon.	Nodwyd a chytunwyd.
5	Er fy mod o blaid y cynnig mewn egwyddor yn fawr, rydw i'n pryderu y byddai unrhyw ddiffygion sy'n gysylltiedig â chyflwyno darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar, mewn rhyw ffordd, yn cael eu trosglwyddo i ni ac yn cael effaith negyddol ar gyllideb Ysgol Gymunedol Aberdâr.	Fyddai hyn ddim yn digwydd. Mae cyllid ôl-16 yn grant unigol ar wahân. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn cyfrifo swm fesul disgybl a ddyrennir i ysgolion yn eu fformiwla ariannu, yn seiliedig ar nifer y disgyblion ôl-16 yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd niferoedd disgyblion ôl-16, ac felly cyllid ôl-16, yn cynyddu yn Ysgol Gymunedol Aberdâr wrth symud ymlaen. Byddai'r dosbarthiadau mwy o faint a ddylai ddeillio o hynny yn gwneud darparu darpariaeth ôl-16 yn fwy hyfyw yn ariannol.
6	Dyw'r Corff Llywodraethu erioed wedi cael gwybod bod arian cyn-16 yn cael ei wario ar ddarpariaeth ôl-16. A fyddai angen inni wario arian cyn-16 ar ddarpariaeth ôl-16 o hyd i sicrhau bod cynnig cwricwlwm ehangach ar gael?	Yn y pen draw, y Corff Llywodraethu sy'n penderfynu ar y cwricwlwm ôl-16 a ddarperir. Bydd disgyblion blwyddyn 11 ar draws y consortiwm eisoes wedi darparu datganiadau o ddi-ddordeb o ran cyrsiau ôl-16, a ddylai helpu i lywio'r cynlluniau yma. Os bydd y cynnig yn

		mynd yn ei flaen, dylai hyn arwain at ddsbarthiadau mwy, sy'n fwy hyfyw yn ariannol, yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, gan alluogi'r ysgol i ddarparu cynnig cwricwlwm gwell, heb fod angen dargyfeirio cyllid cyn-16 i gyfrannu at ddarpariaeth ôl-16.
7	Mae'r amserlenni yn parhau i fod yn bryder mawr o ran amserlennu.	Wedi'i nodi. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai CBSRhCT yn darparu cymaint o gymorth â phosibl.
8	Caiff cyllid ôl-16 ei gyfrifo ar sail niferoedd disgyblion ôl-16 y flwyddyn flaenorol. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd hyn yn peri problem fawr i ni yn y flwyddyn gyntaf, gan y byddai niferoedd ein disgyblion gwirioneddol yn cynyddu'n sylweddol, ond byddai ein cyllid yn seiliedig ar niferoedd disgyblion llawer is y flwyddyn flaenorol.	Mae hyn wedi'i nodi a'i gytuno. Byddai CBSRhCT yn gweithio gyda'r ysgol ac yn ei gefnogi i sicrhau ei fod ddim o dan anfantais ariannol yn y tymor byr oherwydd natur ôl-weithredol y model cyllido ôl-16.
9	Gallai gymryd amser i ni adeiladu arbenigedd staff mewn rhai pynciau dydyn ni ddim yn eu cyflwyno ar hyn o bryd. A fyddai unrhyw fodd i ddod ag arbenigedd staff o Ysgol Gyfun Aberpennar i mewn i ymdrin â'r pynciau yma yn y cyfamser pe bai angen?	Mae Polisi 'Rheoli Newid' Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn nodi'r polisiâu a'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol (AD) sy'n berthnasol i reoli newid sefydliadol.  Mae'n bosibl bod modd archwilio secondiadau rhan-amser yn y tymor byr; fodd bynnag, byddai unrhyw drefniadau o'r fath yn gofyn am ymgynghori â staff, cyrff llywodraethu ac undebau llafur.
10	Mae'n bwysig ymgynghori â rhieni/cynhalwyr (gofalwyr), yn enwedig y rhieni/gwarcheidwaid yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Sut bydd hyn yn digwydd?	Gofynnwyd i'r ddwy ysgol, ynghyd â'u holl ysgolion cynradd cysylltiedig, ddsbarthu'r wybodaeth ymgynghori i rieni/gwarcheidwaid.  Bydd sesiynau galw heibio cyhoeddus ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol yn cael eu cynnal yn y ddwy ysgol ar ddydd Mercher 8 Ionawr 2025 rhwng 15:30 a 17:30.
11	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi mai dim ond 29.7% o ddisgyblion blwyddyn 11 a ddychwelodd i Ysgol Gyfun Aberpennar ar gyfer darpariaeth ôl-16 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/2024. Ydych chi'n gwybod i ble aeth y gweddill?	Mae cyfraddau cadw ôl-16 wedi gostwng ledled Rhondda Cynon Taf (RhCT) wrth i ddisgyblion gael rhagor o wybodaeth a dewisiadau. I rai, mae Coleg y Cymoedd yn opsiwn mwy deniadol neu briodol, tra bod eraill yn dechrau mewn swydd, neu dydy eu cyrchfannau ddim yn hysbys. Mae angen inni sicrhau bod disgyblion yn dewis y llwybr cywir ar eu cyfer.

12	Os aiff y cynnig yn ei flaen, dim ond dwy ysgol fyddai ar ôl yng Nghonsortiw m Ôl-16 Cwm Cynon (Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru). A oes unrhyw Gonsortiw m Ôl-16 arall mor fach?	Oes, mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac Ysgol Gyfun Y Pant yn gweithio fel Consortiw m Ôl-16. Ceir enghreifftiau hefyd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
----	---	--

#### **4. Sylwadau i Gloi**

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at [CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk](mailto:CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk)

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30.